

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan swyddfa'r UE
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 21_Tachwedd 2010–Ionawr 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r unfed rhifyn ar hugain o Materion Ewropeaidd, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion Ewropeaidd.

Roedd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi bwriadu ymweld â Brwsel ar 6 Rhagfyr i gynnal amryw o gyfarfodydd a thrafodaethau. Bwriadwyd cyfarfod â Janusz Lewandowski, Comisiynydd Cyllideb yr UE, Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, Llysgennad y DU i'r UE, a Chabinet Johannes Hahn, y Comisiynydd dros Bolisi Rhanbarthol.

Byddai'r ymweliad wedi digwydd yng nghanol trafodaethau dwys rhwng Senedd Ewrop, y Comisiwn Ewropeaidd a Chyngor yr UE ynghylch cyllideb yr UE ar gyfer 2011. Byddai wedi bod yn gyfle unigryw i'r Pwyllgor drafod yr Adolygiad o Gyllideb yr UE a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y Pumed Adroddiad ar Gydlyniant a'r ohebiaeth ar ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ynghyd ag archwilio goblygiadau posibl mentrau allweddol yr UE sy'n rhan o strategaeth Ewrop 2020.

Yn anffodus, bu raid i ni ohirio'r ymweliad ar yr unfed awr ar ddeg oherwydd y tywydd rhewllyd a'r eira trwm a orchuddiodd ogledd Ewrop cyn y Nadolig.

Serch hynny, bydd y Pwyllgor yn trafod yr holl faterion pwysig hyn yn ystod y tymor hwn, sef y cyfnod olaf o drafodaethau tyngedfennol wrth i'r Comisiwn baratoi ei gynigion deddfwriaethol terfynol ar y materion hyn yn ystod hanner cyntaf 2011. Rydym yn falch bod y Comisiynydd Lewandowksi wedi cadarnhau y bydd yn gallu cymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 01 Chwefror drwy gynhadledd fideo o Frwsel.

Trafodwyd ail adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol y polisi cydlyniant yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 10 Tachwedd 2010, sef yr un diwrnod ag y cafodd  Pumed Adroddiad ar Gydlyniant y Comisiwn Ewropeaidd ei gyhoeddi. Cefais fy nghalonogi gan y lefel gref o gefnogaeth drawsbleidiol i'n hargymhellion, ac mae pedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop hefyd yn rhannu ein safbwynt. Deallwn oddi wrth swyddogion Llywodraeth y DU a fynychodd ein cyfarfod mwyaf diweddar ar 18 Ionawr bod Llywodraeth y DU hefyd yn rhannu'r safbwynt hwn erbyn hyn. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gefnogi Polisi Cydlyniant UE gyfan ar gyfer yr holl ranbarthau, gan gynnwys cefnogaeth ddwysach i ranbarthau tlotach mewn aelod-wladwriaethau cyfoethog. Hefyd, gwahoddodd swyddogion Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU randdeiliaid o Gymru i gyfrannu eu safbwyntiau yn yr wythnosau i ddod ynghylch sut y gallai'r cynlluniau i gryfhau elfennau trefol y polisi effeithio ar Gymru. Rydym hefyd yn falch o glywed y bydd Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, yn un o'r siaradwyr yn ystod y Pumed Fforwm ar Gydlyniant ym Mrwsel ar 31 Ionawr.

Ym mis Medi 2010, lansiodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ymchwiliad i gyfranogaeth Cymru mewn rhaglenni ariannu Ewropeaidd nad ydynt yn rhan o'r cronfeydd strwythurol, sef rhaglenni sy'n cefnogi ymchwil, arloesedd a dysgu gydol oes. Y mwyaf adnabyddus o'r rhain yw'r Rhaglen Fframwaith Ymchwil. Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda Lesley Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Sgiliau; yr Athro John Harries, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru; Swyddfa Ymchwil y DU, sydd wedi ei lleoli ym Mrwsel, yn ogystal â thair o brifysgolion Cymru sy'n ymwneud llawer â'r maes hwn, sef Caerdydd, Bangor ac Aberystwyth.

Cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiwn dystiolaeth olaf ar 18 Ionawr, a hynny gyda'r Bwrdd Strategaeth Technegol a'r Athro Simon Bradley o EADS Innovation Works yng Nghasnewydd, gan ganolbwyntio ar gyfranogaeth y sector preifat, a chafwyd tystiolaeth hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rydym yn bwriadu mabwysiadu a chyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ym mis Chwefror. Oherwydd etholiad y Cynulliad ym mis Mai, ni fydd ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi tan y Pedwerydd Cynulliad.

Mae Pwyllgorau eraill y Cynulliad hefyd yn prysur gwblhau eu busnes cyn y diddymiad ar ddiwedd mis Mawrth, a gellir gweld manylion am eu gweithgareddau yn y bwletin hwn.

Hoffwn gloi drwy longyfarch y Cynghorydd Bob Bright, aelod llawn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Cafodd ei adroddiad ar addysg alwedigaethol ei fabwysiadu gan gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym mis Rhagfyr. Llongyfarchiadau hefyd i Christine Chapman AC, a gafodd ei phenodi'n ddiweddar yn rapporteur Pwyllgor y Rhanbarthau ar gyfer un o fentrau allweddol strategaeth Ewrop 2020, sef 'Platfform Ewropeaidd yn erbyn tlodi'. Mae hwn yn fater neilltuol o bwysig yng Nghymru a bydd gennym lais cryf o Gymru i gyflwyno barn awdurdodau lleol a rhanbarthol Ewrop yn y drafodaeth. Y bwriad yw y bydd adroddiad Christine yn cael ei fabwysiadu yn ystod cyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar 31 Mawrth 2011.

**Rhodri Morgan AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**



## Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

### Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

– **Cyllideb yr UE a dyfodol y polisi cydlyniant:** gohiriwyd ymweliad y Pwyllgor â Brwsel ar 06 Rhagfyr. Roedd cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda Chomisiynydd Cyllideb yr UE, Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, Dirprwy Bennaeth Cabinet y Comisiynydd dros Bolisi Rhanbarthol, Ysgrifennydd Cyffredinol y Rhanbarthau Ymylol ac Arforol (CPMR), a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Cyflogaeth a Materion Cymdeithasol. Bydd y sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiynydd Cyllideb yr UE bellach yn digwydd drwy gynhadledd fideo ar 01 Chwefror.

– **Cyfranogaeth o Gymru yn rhaglenni Ymchwil, Arloesedd a Dysgu Gydol Oes yr UE:** yn ystod mis Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda Lesley Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Sgiliau; yr Athro John Harries, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru; prifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd a Swyddfa Ymchwil y DU (UKRO). Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan y Bwrdd Strategaeth Technegol, EADS Innovation Works a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystod ei gyfarfod ar 18 Ionawr, a bwriad y Pwyllgor yw cytuno ar yr adroddiad ym mis Chwefror.

– **Prif Weinidog Cymru:** daeth Prif Weinidog Cymru i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Tachwedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ewropeaidd. Cyfeiriodd at feysydd blaenoriaeth y Pwyllgor, ac yn benodol at yr Adolygiad o Gyllideb yr UE, dyfodol y polisi cydlyniant a strategaeth Ewrop 2020.

### Y Pwyllgor Cynalidawyedd

– **Bioamrywiaeth:** clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol yr Amgylchedd yn ystod ei gyfarfod ar 04 Tachwedd fel rhan o'i ymchwiliad i fioamrywiaeth. Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar y methiant i gyrraedd targedau strategaeth bioamrywiaeth yr UE, a thrafodwyd cynlluniau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer dyfodol y polisi hyd at 2020. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad ym mis Chwefror 2011.

– **Lleihau allyriadau carbon yng Nghymru:** ar 30 Hydref, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad terfynol ar ei ymchwiliad tair blynedd i leihau allyriadau carbon yng Nghymru. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar y ffordd y mae Cymru'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau carbon ac ar wneud argymhellion i sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran bod yn wlad garbon isel a ffyniannus. Cafwyd dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr.

### Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

– **Dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin:** cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 03 Tachwedd ar adroddiad yr Is-bwyllgor ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad.

## Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

Ar 26 Hydref roedd **Nick Bourne AC**, **David Melding AC** a **Nick Ramsay AC** ym Mrwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd ar faterion economaidd ac ariannol, fel rhan o raglen a drefnwyd gan swyddfa Dr Kay Swinburne, un o Aelodau Cymru o Senedd Ewrop. Cawsant gyfarfodydd â Timothy Kirkhope ASE, arweinydd Ceidwadwyr y DU yn Ewrop, BUSINESS EUROPE, swyddogion o'r gyfarwyddiaeth gyffredinol dros bolisi rhanbarthol, y gyfarwyddiaeth gyffredinol dros faterion economaidd ac ariannol a chynrychiolaeth barhaol y DU i'r UE.

– Ar 21–23 Tachwedd, cynrychiolodd **Joyce Watson AC** a **Dai Lloyd AC** y Cynulliad yng **Nghynhadledd Cynulliad Seneddol Prydain-Iwerddon** a gynhaliwyd ar Ynys Manaw. Yn ystod y gynhadledd cafwyd anerchiad gan Lywydd y Cyngor Nordig, Helgi Hjörvar o Wlad yr Iâ.

– Ar 24 Tachwedd, mynychodd **Christine Chapman AC** gyfarfod o Gomisiwn Materion Economaidd a Chymdeithasol Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.

– Ar 01 a 02 Rhagfyr, mynychodd **Christine Chapman AC** gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.

## Ymweliadau rhyngwladol â'r Senedd

– Ar 10 Tachwedd 2010, ymwelodd **dirprwyaeth o Rwsia** a oedd ar ymweliad tridiau â'r DU ac a oedd yn cynnwys ymweliadau â San Steffan a Senedd yr Alban, â'r Cynulliad er mwyn trafod profiad Cymru o hybu a lledaenu'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol.

– Ar 11 Tachwedd ymwelodd swyddogion o **Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Polisi Rhanbarthol a Chyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth yr UE** â'r Cynulliad, a hynny er mwyn briffio aelodau o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn breifat ynghylch y Pumed Adroddiad ar Gydlyniant.

– Ar 12 Tachwedd ymwelodd **Ei Ardderchogrwydd Mr Pekka Huhtaniemi, Llysgennad y Ffindir i'r DU**, â Chymru, a chyfarfu â Rhodri Morgan AC.

– Ar 23 Tachwedd croesawodd y Pierhead **Ddirprwyaeth Ryngwladol o Seneddwyr y Gymanwlad** o gyn belled ag Awstralia a Seland Newydd a chyn agosed â'r Alban, fel rhan o Bumed Seminar Ryngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y DU ar Lywodraethiant Seneddol.

**Lincs**
– Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Hysbysiad Busnes y Cynulliad
– Tudalennau'r Pwyllgorau
– Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

**Am ragor o wybodaeth**–

**Cysylltwch â:**
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (**Gregg.Jones@wales.gov.uk**)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu
Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
**archebu@cymru.gsi.gov.uk**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.